

## Adroddiad Ôl Ymgynghori

**Teitl y Project:** Heol y Goron – Cyfleusterau Croesfan i Gerddwyr  
**Rhif y Project:** CO16166

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 24 Tachwedd 2017 a 8 Rhagfyr 2017. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus derbyniwyd tri sylw gan aelodau o'r cyhoedd neu asiantaethau allanol, oedd fel a ganlyn:

Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### Mater 1

*"Symud y groesfan yn nes at Whitchurch Road i wella gwelededd i gerddwyr a gyrwyr."*

### Ymateb

Yn ystod y cam dylunio cysyniadol cychwynnol, profwyd Llwybrau Cerbydau i weld sut gall cerbydau o feintiau gwahanol symud o gwmpas cyffyrdd i nodi a fyddai trefn ffordd arfaethedig newydd yn achosi unrhyw broblemau. Nodwyd, pe bai'r lloches i gerddwyr yn cael ei symud yn nes at gyffordd Whitchurch Road, na fyddai cerbydau mwy sy'n gyrru o Whitchurch Road ac yn troi i mewn i Heol y Goron yn gallu cwblhau'r troad hwn heb wrthdaro â'r lloches i gerddwyr. Felly dyma'r lleoliad agosaf at Whitchurch Road y gellir gosod y lloches i gerddwyr heb achosi gwrthdaro ar gyfer cerbydau mwy.

### Mater 2

*"Nodi wyneb y ffordd fel Croesfan Sebra – i roi blaenoriaeth i gerddwyr."*

### Ymateb

Byddai cost cyflwyno Croesfan Sebra yn y lleoliad hwn yn llawer mwy na'r arian sydd wedi'i neilltuo i gyflawni'r cynllun hwn ac felly bydd y cynllun hwn ond yn cynnwys uwchraddio'r lloches i gerddwyr presennol.

### Mater 3

*"Rhoi wyneb newydd ar y sribed 1 metr ar ymyl y ffordd ar hyd Whitchurch Road yn gyfagos â'r gyffordd - i waredu wyneb ffordd garw i feicwyr."*

### Ymateb

Yn ystod y Cam Dylunio Manwl creïr cost fwy cywir i gyflawni'r cynllun ac ar y cam hwn byddwn yn nodi a oes arian ar gael i gyflawni mesurau ychwanegol megis ailosod wyneb y ffordd. Os nad oes arian ychwanegol ar gael a bod wyneb y ffordd wedi'i ddifrodi o gwmpas y gyffordd hon caiff hyn ei gyfeirio at ein tîm Rheoli Asedau sy'n gyfrifol am gynnal a chadw priffyrdd mabwysiedig ledled y Ddinas.

#### Mater 4

*“Lleihau lled y palmant wrth ddynesu a gadael y gyffordd a lledu'r lôn gerbydau – i greu lôn feiciau ar y ffordd. Mae'r palmant yn lletach na'r angen ar gyfer swm y cerddwyr sy'n ei ddefnyddio felly ymddengys y byddai bod lôn feiciau yn ffordd well o ddefnyddio'r lled sydd ar gael.”*

#### Ymateb

Mae'n debygol y bydd lledu'r lôn gerbydau yn cynyddu cyflymderau cerbydau, na fyddai yn gwella diogelwch ar y ffordd yn y lleoliad hwn. Nid oes chwaith ddigon o arian ar gael i ailadeiladu'r troedffyrdd yn rhan o'r cynllun arfaethedig hwn.

#### Mater 5

*“Buaswn i hefyd yn culhau allanfa ochr ogleddol Heol y Goron. Lloches i gerddwyr rhwng lonydd troi i'r chwith a throi i'r dde os caiff y groesfan ei symud yn agos at y gyffordd (fel rydych yn ei gynnig), neu fel arall ychwanegwch le ymwithiol ffug i feiciau yn unig ar y gornel hon, fel ar yr ochr ddeheuol (a ddylai hefyd fod ar gael i feiciau)”*

#### Ymateb

Nid yw'r ffordd yn ddigon llydan i gyflwyno lloches i gerddwyr rhwng y lonydd troi i'r chwith a throi i'r dde ar Heol y Goron, ond cytunir y gall cyflwyno rhwystr ymwithiol ffug ar y gornel i'r gogledd annog gyrwyr i leihau cyflymder eu cerbydau wrth symud o gwmpas y gyffordd hon. Asesir y mater hwn ymhellach yn ystod y cam dylunio manwl.

#### Mater 6

*“Byddai Sustrans Cymru yn argymhell adeiladu radiysau cornel tynnach ar y ddwy gornel i sicrhau bod cerbydau'n arafu wrth iddynt droi i Heol y Goron.”*

#### Ymateb

Yn ystod y cam dylunio cysyniadol nodwyd os byddai lled y gyffordd yn cael ei leihau, na fyddai cerbydau mwy sy'n symud o gwmpas y cyffyrdd hyn yn gallu troi y ffordd hon heb yrru ar draws y droedffordd neu'r lloches i gerddwyr. Am y rheswm hwn cynigir rhwystrau ymwithiol ffug ar gyfer y lleoliad hwn. Er nad yw'r rhain yn ataliad corfforol gallai'r rhain annog gyrwyr i leihau cyflymder eu cerbydau o gwmpas y gyffordd hon. Fel y nodwyd uchod yn ystod y cam dylunio manwl byddwn yn archwilio a ellir cyflwyno rhwystrau ymwithiol ffug ar ddwy ochr y gyffordd.

#### **Argymhelliad:**

Yn sgil yr adborth a dderbyniwyd, ac wedi cael cefnogaeth mwyafrif yr Aelodau Ward Lleol argymhellir bod y cynllun yn cael mynd yn ei flaen fel yr hysbysebwyd.